

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 12 Hydref 2018** am 9.00am yn 1887, Plas Coch, Wreccsam.

Presennol

- Mr Paul Barlow
- Mr Angus Hamill-Stewart
- Mr Colin Heron
- Yr Athro Maria Hinfelaar
- Mrs Celia Jenkins
- Mr Barrie Jones
- Yr Athro Sandra Jowett
- Mr Paul McGrady
- Dr Jayne Mitchell
- Mrs Judy Owen
- Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
- Yr Athro Norman Sharp
- Mr Askar Sheibani
- Dr Colin Stuhlfelder
- Mr David Subacchi

Swyddogion:

- Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Cyllid*)
- Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol*)
- Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithrediadau*)
- Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-ganghellor*)
- Mr James Dawson (*Cyfarwyddwr Cyswllt Cynllunio Strategol*) *ar gyfer eitemau 18.10, 18.22 a 18.25*)

Ymddiheuriadau:

- Mrs Laura Gough
- Mr Kieran Irwin
- Mr Lee Robinson
- Dr Aulay Mackenzie (PVC Partnerships)

Hefyd yn bresennol: Mrs Val Butterworth (Clerc y Bwrdd)

18.01	Croeso ac ymddiheuriadau
	<p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.</p> <p>Croesawyd Dr Jayne Mitchell a Mr Colin Heron i'w cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr cyntaf.</p> <p>Cofnodwyd diolchiadau'r Bwrdd i'r Athro Norman Sharp, yr oedd ei gyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 17 Hydref. Tynnodd y Cadeirydd sylw at gyfraniad cadarnhaol yr Athro Sharp i waith y Bwrdd; a'r modd adeiladol yr oedd wedi ei chefnogi hi fel Cadeirydd. Dywedodd yr Athro Sharp bod ei gyfnod fel llywodraethwyr wedi bod yn gyfnod diddorol iawn. Roedd wedi dysgu llawer am lywodraethu, ac wedi mwynhau gweithio gyda'r Cadeirydd, y tîm rheoli newydd ac aelodau newydd y Bwrdd yn fawr iawn.</p>

	Cofnodwyd diolchiadau cynnes i Mr Neil Ashbridge am ei gyfraniad i'r Bwrdd ac am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio hefyd. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu'n ffurfiol at Mr Ashbridge ar ran y Bwrdd i fynegi eu diolchiadau.	
18.02	Datgan buddiannau	
	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau ynghylch unrhyw eitemau ar yr agenda.	
18.03	Aelodaeth	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ac argymhellion gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-ganghellor ddiweddariad i'r aelodau ynghylch chwilio am Ganghellor newydd yn dilyn diwedd cyfnod y Canghellor cyfredol yn y swydd ar ddiwedd Rhagfyr 2018.</p> <p>Eglurwyd bod y Cadeirydd yn cyfarfod gyda llywodraethwyr unigol cyn diwedd eu cyfnod cyntaf yn y swydd, i drafod y posibilrwydd y byddent yn fodlon gwasanaethu am ail gyfnod, er mwyn hysbysu ystyriaethau'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.</p> <p>Penderfynwyd Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO penodi Mrs Caroline Whiteley o 1 Tachwedd 2018 tan 31 Awst 2022 a CHYTUNO i ddirprwyo gweithredu i'r Cadeirydd i benderfynu pa Bwyllgor y bydd Mrs Whiteley'n aelod ohono.</p> <p>CYMERADWYO penodi Mr Paul McGrady fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yn weithredol ar unwaith.</p> <p>NODI y gweithredir proses enwebu i benodi Is-gadeirydd a Chadeirydd yng nghyfarfod Tachwedd 2018.</p> <p>CYTUNO i dderbyn argymhellion ynghylch llywodraethwr newydd annibynnol gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, trwy ddsbarthu neges os yw'n ofynnol.</p>	
18.04	Gweithred y Cadeirydd	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar weithredoedd y Cadeirydd i gymeradwyo ystod o bolisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â myfyrwyr yr oedd angen eu cael yn eu lle ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.05	Cofnodion	
	<p>Derbyniwyd: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2018.</p> <p>Penderfynwyd Bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.</p>	
18.06	Materion yn codi	

	<p>Derbyniwyd: Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.07	<p>Adroddiad yr Is-ganghellor</p> <p>Derbyniwyd: Dogfen Cynigion Bargen Twf Gogledd Cymru.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd yr Is-ganghellor y Ddogfen Cynigion, gan dynnu sylw ei bod yn deillio o ddwy flynedd o waith gan y partneriaid, a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn dilyn cyhoeddiadau'r gyllideb ar 29 Hydref gellid cynnal rhagor o drafodaethau ynghylch datblygu a'r amserlenni gweithredu ar gyfer yr 16 prosiect, gyda'r un Peirianeg Mentro a Phrosiect Canolfan Optic yn ymwneud yn benodol â'r Brifysgol.</p> <p>Byddai'r prosiectau'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er y byddai taliadau llog yn gysylltiedig â'r grantiau'n cael eu cyfeirio'n ôl at y partneriaid i'w talu dros gyfnod o 15 mlynedd. Byddai manylion a goblygiadau'r tâl llog hwn yn cael ei darfod gan gyfarwyddwyr ariannol y partneriaid, dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Unwaith y bo eglurder ynghylch sefyllfa'r llog, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ei ystyried o ran a yw'r taliadau llog yn hydryn, a CHYTUNWYD y gellid cyflwyno argymhelliad y Pwyllgor i'r Bwrdd trwy ddsbarthu neges e-bost os oes angen, fel nad oes unrhyw oedi wrth drafod Penawdau'r Telerau.</p> <p>Mewn ymateb i ymholiad eglurwyd bod y cyfanswm buddsoddiad o £30.7m wrth brosiect y Brifysgol yn adlewyrchu'r ymrwymiad a wnaed eisoes o ran datblygu safle Plas Coch.</p> <p>Penderfynwyd CADARNHAU'R ddogfen cynigion fel y sail ar gyfer strategaeth ranbarthol tymor hirach ar gyfer twf economaidd ac fel y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth y bydd cynnwys Bargen Twf yn cael ei llunio ohoni ar y cam Cytundeb Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau.</p> <p>CYMERADWYO awdurdodi'r Is-ganghellor i lofnodi'r Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau, yn DDAROSTYNGEDIG i eglurhad ac argymhelliad cadarnhaol gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ar fater y taliadau llog, ochr yn ochr ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol y nawr partner statudol a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Merswy Dyfrdwy a Gogledd Cymru, gyda'r Ddogfen Cynigion yn nodi'r parametrau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.</p>	
18.08	<p>Undeb y Myfyrwyr</p> <p>Derbyniwyd: Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr yr adroddiad, gan dynnu sylw at nifer o faterion allweddol.</p> <p>Roedd Wythnos y Glas wedi bod yn llwyddiannus iawn, ynghyd â recriwtio a hyfforddi cynrychiolwyr cyrsiau, gyda chymorth y Deon Cyswllt Ymgysylltu gyda</p>	

	<p>Myfyrwyr newydd. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn gweithio i gynyddu'r ymgysylltu gyda myfyrwyr mewn sefyliadau partner.</p> <p>Roedd swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gyda'r Brifysgol ar ysgrifennu'r ddogfen dadansoddiad hunan werthuso i baratoi ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd i'w gynnal yn fuan.</p> <p>Roedd Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr yn gweithio'n dda ac roedd y tîm yn parhau i fod â pherthynas dda gyda thîm cwynion y Brifysgol. Bu nifer o gwynion grŵp yn ystod 2017/18 ac roedd Undeb y Myfyrwyr o'r farn yr ymdriniwyd gyda nhw'n effeithiol mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol. Cydnabu'r aelodau gyfraniad cadarnhaol tîm y Ganolfan Gyngor i brofiad myfyrwyr.</p> <p>Yn dilyn cwestiwn ynghylch a oedd cwynion i'r Ganolfan Gyngor yn ddangosydd cynnar sgorau isel yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol mewn rhai meysydd, adroddiad tra nad oes cydberthynas uniongyrchol rhwng materion y mae'r Ganolfan Gyngor yn ymdrin â nhw a'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn arferol, bu cydberthynas rhwng y cwynion grŵp a dderbyniwyd gan y Brifysgol yn 2017/18 a'r meysydd gyda sgorau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol isel yn 2018. Mae gweithgor Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol y Brifysgol yn cael ei gyd-gadeirio gan y Dirprwy Is-ganghellor a Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Roedd y Gweithgor a'r mecanweithiau i adnabod materion angen eu datrys ran y myfyrwyr h.y. y broses gwynion, Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr, y system cynrychiolwyr myfyrwyr a'r fforymau llais y myfyriwr yn gweithio'n dda.</p> <p>Nododd yr aelodau bod Undeb y Myfyrwyr yn paratoi i wneud cais am farc ansawdd Undebau Myfyrwyr yr Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol (NUS) a byddai'r aseswyr yn edrych ar bob agwedd o weithrediadau'r Undeb. Byddai Cadeirydd y Bwrdd ar gael i'r aseswyr pe bai'n ofynnol.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.09	Alldro ariannol a ragfynegir	
	<p>Derbyniwyd: Yr alldro ariannol a ragfynegir ar gyfer 2017/18.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr adroddiad, gan ddatgan bod rhagolygon diwedd y flwyddyn yn gyson gydag adroddiadau blaenorol, ond bod yr archwilwyr allanol yn y broses o gynnal archwiliad y datganiadau ariannol; ac y gallai'r sefyllfa alldro newid o ganlyniad i hynny.</p> <p>Gwnaeth y Brifysgol fodloni ei tharged arbedion o £2m yn 2017/18, yn cynnwys costau newid i sicrhau'r gwaged a dargedwyd. Roedd costau pensiwn FRS17 yn uwch na'r gyllideb; roedd costau staffio yn agos at y gyllideb, roedd yr incwm o ffioedd dysgu yn well na'r disgwyl a goresgynwyd yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol o'r sefyllfa ddarpariaethol hon.</p> <p>Fel roedd pethau'n sefyll, cyn paratoi'r datganiadau ariannol yn derfynol, roedd sefyllfa'r Grŵp yn dangos gwaged gweithredol o £1.25m a gwaged net cyffredinol o £577k. Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn adrodd am gollod cytunedig oherwydd cymryd prydles tymor byr ar adeilad yng nghanol y dref, ac roedd Glyndŵr Innovations wedi gwneud colled yn rhannol oherwydd bod contractau a ragfynegwyd wedi'u dyfarnu'n hwyrach na'r disgwyl. Roedd Optic Glyndŵr yn dangos gwaged, ar ôl elwa o gyfraddau cyfnewid ffafriol ar y taliad gwarant terfynol;</p>	

	<p>ac roedd darpariaeth benthyciad dyledus potensial, yr oedd y Pwyllgor Archwilio wedi holi amdano'n flaenorol, wedi ei ymchwilio gyda'r canlyniad y cafwyd cadarnhad nad oedd y benthyciad yn ad-daladwy, felly nid oedd angen y ddarpariaeth mwyach ac roedd wedi'i rhyddhau i'r cyfrif referniw.</p> <p>Roedd perfformiad y Cyfadrannau yn gymharol unol â'r targedau, er y bu peth tangyflawni yn erbyn credydau rhan amser.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn dymuno cofnodi eu llongyfarchiadau i'r rheolwyr a'r staff ar ganlyniad rhagorol mewn blwyddyn heriol. Nodwyd bod yr arbedion a gyflawnwyd wedi bod yn allweddol yn sicrhau gwarged am y drydedd flwyddyn, tra'n cydnabod yr effaith yr oedd yr ailstrwythuro wedi'i gael ar grwpiau ac unigolion.</p> <p>Byddai'r alldro cadarnhaol yn cael ei rannu gyda staff pan fyddai'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n derfynol; ac adroddwyd bod y partneriaid busnes cyllid wedi trafod perfformiad ariannol Cyfadrannau ac Adrannau gyda'r deilyddion cyllideb perthnasol yn rheolaidd.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.10	Campws 2025	
	<p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Adroddiad diweddariad ynghylch y cynnydd o ran Campws 2025. (ii) Diagram camau'r datblygiadau arfaethedig. (iii) Y rhaglen gynnal a chadw gynlluniedig. (iv) Blaenoriaethu diagramau rhan 0. (v) Fframwaith llywodraethu wedi'i ddiweddarau o ran cymeradwyo Campws 2025. <p>Adroddwyd:</p> <p>Cymrwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyllid sylw at bwyntiau allweddol, a nodir isod.</p> <p>18.10.01 Cyllido a blaenoriaethu rhan 0 – adnewyddu campws Plas Coch</p> <p>Roedd Grŵp Llywio Campws 2025 wedi datblygu cynllun fesul cyfnod diwygiedig. Byddai cyllido a gweithredu fesul cyfnod rhan 0 (a oedd yn cael ei alw'n gam 1 erbyn hyn) yn cael ei gynnal trwy gyfuniad o'r gyllideb cynnal a chadw cynlluniedig, y rhaglen ceisiadau cyfalaf a derbynebiadau o werthu tir yn ogystal â'r cyllid cyfalaf a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.</p> <p>Roedd y gwagle addysgu newydd SCALE-UP wedi'i gyllido trwy raglen cyfalaf ar raddfa fechan 2018/19.</p> <p>Cynhaliwyd dadansoddiad gofodol ac, yn dilyn derbyn y canfyddiadau, y nod oedd cynyddu defnydd cyfredol prif adeilad Plas Coch o 53% gwagle academiaidd i 84% gwagle academiaidd, a fyddai'n golygu symud swyddfeydd staff i rannau eraill y campw. Byddai Undeb y Myfyrwyr yn cael ei adleoli hefyd.</p> <p>Sefydlwyd grwpiau defnyddwyr dylunio i ystyried gofynion y gwagle addysgu fel ei fod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm a gynigir, yn cynnwys y cydbwysedd rhwng gwagle addysgu safonol a SCALE-UP. Hyd yma roedd 15 o staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio dull cymorth technoleg SCALE-UP tuag at ddysg myfyrwyr, a byddai rhagor o ddatblygiad staff yn cael ei gynnal mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Nottingham Trent.</p>	

	<p>Roedd yr adran Ystadau wedi adolygu'r adroddiad Faithful a Gould a'r adroddiad Futurserve M&E wrth asesu'r blaenoriaethau ar gyfer cynnal a chadw ôl-gronnus. Roedd y meysydd blaenoriaeth uchel yn cael sylw i fodloni gofynion rheoleiddiol a materion allweddol a gadwyd gan staff a myfyrwyr. Ni fyddai rhai meysydd risg uchel yn yr adroddiadau, yn ymwneud â'r Pentref Myfyrwyr a Llyfrgell Goldstein, yn cael sylw gan fod bwriad dymchwel y ddau adeilad. would not be addressed as both buildings were planned for demolition.</p> <p>Unwaith y bo'r cynlluniau adnewyddu wedi eu cwblhau, byddai cynigion yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd, yn cynnwys mwy o fanylion am sut y byddai cyllid cyfalaf Cyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio.</p> <p>Diweddarwyd y tabl cyllido yn dangos gwariant posibl a ffynonellau cyllid ac roedd diffyg yn parhau petai popeth yn y cynllun Campws 2025 yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, byddai'n bosibl darparu elfennau arwyddocaol y cynllun wrth i gyllid ddod ar gael heb unrhyw effaith ar y cyfrif refeniw nag unrhyw gyfraniad o'r arian parod, ac eithrio mân wariant cyfalaf a chynnal a chadw cynlluniedig.</p> <p>18.10.02 Gwaredu tir dros ben nesaf at Bentref Myfyrwyr Wrecsam Derbyniwyd dau gynnig am y tir dros ben ac roedd gwaith prisio'n digwydd. Roedd y negodi'n parhau gyda'r ddau barti â diddordeb.</p> <p>Unwaith y bo'r prisiadau wedi'u derbyn a'r negodi wedi'i gwblhau, byddai achos busnes wedi'i gefnogi gan adroddiad elusen ac argymhelliad y rheolwyr yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i ystyried y gwerth gorau a gwneud penderfyniad.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
<p>18.11</p>	<p>Dadansoddiad yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol</p> <p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Dadansoddiad yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a ddosbarthwyd yn Awst 2018 (ii) Llythyr i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. (iii) Cynlluniau gweithredu ar gyfer pedair rhaglen. <p>Adroddwyd: Anfonwyd dadansoddiad manylach o ganlyniadau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2018 a thrafowyd y canlyniadau yn y Diwrnod Strategaeth ar 11 Hydref. Tynnwyd sylw at ymateb Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a nodwyd y bu'n her penderfynu beth roedd y data'n ei ddweud oherwydd agregu data o'r nifer fechan o ymatebion yn ymwneud â'r cyrsiau dan sylw. Roedd y cynlluniau gweithredu a gyflwynwyd ar lefel cwrs, ond roedd cynlluniau gweithredu Cyfadran uwch eu pennau a oedd yn nodi pob cwestiwn yn yr Arolwg a'r gweithredoedd i fynd i'r afael â sgorau isel, yn ogystal â nodi lle'r oedd arferion da.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
<p>18.12</p>	<p>Adroddiad y Cadeirydd</p> <p>Adroddwyd: Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi dod i'r Brifysgol ar 22 Awst i lofnodi a selio'r dogfennau caffael a benthyciad yn gysylltiedig â Phentref Myfyrwyr Wrecsam, gyda Mr Barlow fel yr ail lofnodwr. Roedd hi hefyd wedi bod mewn lansiad i'r wasg ym Mharc y Glowyr yn dilyn y cytundeb i lesio'r cyfleuster i Gymdeithas Bel-droed</p>	

	<p>Cymru, a fyddai'n cyfrannu at well gyfleusterau chwaraeon i'r Brifysgol unwaith y bo wedi'i ddatblygu. Rhagwelwyd agor cyfleusterau newydd Cymdeithas Bel-droed Cymru ym mis Mai 2019.</p> <p>Ni fyddai'r Cadeirydd yn medru mynd i gyfarfod nesaf Cadeiryddion Prifysgolion Cymru, a fyddai'n cynnwys cyfarfod gydag Ysgrifennydd Addysg y Cabinet, ac estynnodd wahoddiad i unrhyw lywodraethwr arall fynd yno ar ei rhan hi petai'n dymuno.</p> <p>Byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn ymweld â'r Brifysgol ar 15 Tachwedd i drafod gwaith ymgysylltu dinesig y Brifysgol.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.13	Y Bwrdd Academaidd	
	<p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Adroddiad y materion a gafodd eu hystyried yng nghyfarfod Medi 2018 y Bwrdd Academaidd.</p> <p>(ii) Siarter Myfyrwyr 2018/19.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Cymrwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen a thynnodd yr Is-ganghellor sylw at y ffaith bod y Bwrdd Academaidd wedi trafod y pum datganiad sicrwydd yr oedd yn ofynnol i'r Bwrdd eu cyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ym mis Rhagfyr; a byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd i'r panel Craffau ar Ansawdd a Safonau. Roedd Colin Heron, llywodraethwyr enwebedig y Bwrdd Academaidd, bellach yn aelod o'r Panel a bydd yn medru cyfrannu at y sicrwydd ar gadarnrwydd ansawdd a safonau darpariaeth y Brifysgol.</p> <p>Cymeradwywyd arsylwi ar bolisi addysgu gan gyfoedion, a oedd yn cefnogi staff academaidd gyda dysgu trwy gyfoedion.</p> <p>Nododd yr aelodau bod diffyg cydbwysedd rhywedd yn y delweddau ar y Siarter Myfyrwyr ac awgrymwyd ystyried adlwyrchu'r boblogaeth fyfyrwyr amrywiol yn y delweddau lle bynnag y bo'n bosibl.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R Adroddiad a'r Siarter Myfyrwyr.</p>	
18.14	Risgiau Strategol Corfforaethol	
	<p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol.</p> <p>(ii) Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw at y ffaith na fu unrhyw newidiadau i'r risgiau eu hunain, yn dilyn adolygiad gan y rheolwyr. Bu peth newidiadau i'r naratif yn y datganiadau risg a lleddfu fodd bynnag.</p> <p>Roedd y Pwyllgor wedi cytuno y dylid cyflwyno'r gofrestr risgiau lawn i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ac yn flynyddol wedi hynny fel atodiad i'r crynodebau risgiau corfforaethol maent yn eu derbyn ymhob cyfarfod.</p>	

	<p>Roedd y rheolwyr wedi dechrau'r broses o ledaenu'r cofrestrau risg gweithredol gan ddefnyddio'r un templadau a fformat â ddefnyddiwyd ar gyfer Bwrdd yr Is-ganghellor; a chyflwynwyd prosesau i esgyn risgiau uchel i Fwrdd yr Is-ganghellor fel bo'n briodol.</p> <p>Wrth drafod y risg o ran sefyllfa'r Brifysgol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, nodwyd nad yw'r Cyngor yn cyhoeddi ei fethodoleg ar gyfer asesu sefydliadau addysg uwch, ond mae'r broses yn cynnwys adolygu amrediad o ffactorau yn cynnwys llywodraethu, cyfeiriad strategol yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru a'r cynaliadwyedd tymor byr, tymor canolig a thymor hir, yn hytrach na sefyllfa ariannol y Brifysgol yn unig. Mae'r Brifysgol yn ystyried ei pherthynas gyda CCAUC fel un gadarnhaol ac amlinellwyd y mecanweithiau mae'r Brifysgol yn ei defnyddio i sicrhau diweddarau CCAUC am y datblygiadau diweddaraf.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.15	Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd	
	<p>Derbyniwyd: Cynllun gweithredu Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd.</p> <p>Adroddwyd: Amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu sut y gwnaeth y Pwyllgor ystyried pob un o'r argymhellion yn deillio o'r adolygiad effeithiolrwydd. Roedd y Pwyllgor yn argymhell derbyn 11 argymhelliad yn llawn ac un yn rhannol, ac roedd wedi awgrymu camau gweithredu i ymdrin â phob un ohonynt.</p> <p>Roedd pedwar argymhelliad nad oeddynt o'r farn eu bod yn briodol, a thynnwyd sylw at bob un, gyda'r rhesymeg, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Penderfynwyd bod cyfarfod ar y cyd rhwng y Bwrdd Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academiaidd yn anhylaw oherwydd y niferoedd ac awgrymwyd y byddai cryfhau'r rhyngweithio rhwng y ddau gorff i ddatblygu proses mwy rheolaidd a chyffredin yn fwy buddiol. (ii) Er mwyn cynyddu amrywiaeth y Bwrdd awgrymwyd y gallai'r mecanweithiau gynnwys aelodaeth gyswllt. Fodd bynnag, penderfynwyd parhau i ddefnyddio'r mecanweithiau cyfredol i hysbysebu lleoedd gwag, ac nid oedd aelodaeth gyswllt y Bwrdd yn cael ei ystyried yn ddull priodol oherwydd atebolrwydd a chyfrinachedd. (iii) O ran trafodaeth ar sut i ymdrin â mater perfformiad yn y tablau cynghrair eglurwyd bod polisi o beidio â defnyddio tablau cynghrair fel gyrrwr perfformiad, er nad oedd hyn wedi bod yn glir i bawb. Yn hytrach roedd y Brifysgol yn dymuno canolbwyntio ar y materion gwaelodol a'r amcanion yn y Weledigaeth a'r Strategaeth, er enghraifft data'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a Chyrchfannau Gadawyr Addysg Uwch, i wella profiad y myfyrwyr yn hytrach na chynyddu ei safle mewn tablau cynghrair yn unig. Serch hynny, bydd y Bwrdd yn cael ei hysbysu am ei safle mewn tablau cynghrair a bydd yn dathlu unrhyw gynnydd. (iv) Penderfynwyd nad oedd trefnu sesiwn ddatblygu i drafod brand a gwerthoedd y Brifysgol yn foynnol gan fod y gwerthoedd bellach wedi'u nodi yn y ddogfen Gweledigaeth a Strategaeth 2025 ac roedd penderfynu ar brand gweledo lar gyfer y Brifysgol yn rhywbeth i'r rheolwyr benderfynu arno. Dywedodd yr Is-ganghellor y byddai'r brandio a hunaniaeth yn cael ei adolygu maes o law. <p>Penderfynwyd</p>	

	<p>CYTUNO i dderbyn yr 11 argymhelliad yn llawn ac un yn rhannol a'r ymatebion cyfatebol.</p> <p>CYTUNO i beidio â derbyn y pedwar argymhelliad y tynnwyd sylw atynt am y rhesymau a nodwyd.</p> <p>CYMERADWYO'R cynllun gweithredu.</p>	
18.16	Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr 2017/18.</p> <p>Penderfynwyd CYMERADWYO'R adroddiad fel crynodeb cywir o waith y Bwrdd yn ystod 2017/18 a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2018/19.</p> <p>CYMERADWYO rhannu'r adroddiad gyda'r Bwrdd Academaidd, staff a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.</p>	
18.17	Adroddiad Blynyddol y Rheolwyr	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr 2017/18.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.18	Cofrestr buddiannau	
	<p>Derbyniwyd: Y gofrestr buddiannau wedi'i diweddarau ar gyfer 2018/19.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R Gofrestr.</p>	
18.19	Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau	
	<p>Derbyniwyd: Briffiadau ar gylchlythyrau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ymwneud â: (i) yr ymgynghoriad ar y Mesurau Cenedlaethol ar gyfer Perfformiad Addysg Uwch; (ii) yr ymgynghoriad ar y gweithdrefnau ar gyfer ansawdd sydd, neu'n sy'n debygol o fod yn annigonol ac ymateb y Brifysgol; a (iii) gwybodaeth ar ddyraniadau Cyfalaf Ystadau ar gyfer 2018/19.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad.</p>	
18.20	Pwyllgorau'r Bwrdd	
	18.20.01 Y Pwyllgor Archwilio	
	<p>Derbyniwyd: (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2018. (ii) Y Polisi Gwaredu Asedau Sefydlog.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad gan dynnu sylw bod y Pwyllgor wedi awgrymu diwygiadau i'r Polisi Gwaredu Asedau Sefydlog, a gynhwyswyd yn y fersiwn derfynol a gyflwynwyd. Cyflawnwyd archwiliad mewnol ar</p>	

	<p>waredu hanesyddol hefyd i sicrhau bod y prosesau cywir yn eu lle ar gyfer gwaredu eiddo yn y dyfodol. Roedd yr archwiliad wedi derbyn barn sicrwydd sylweddol.</p> <p>Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i wahodd perchennog risg i gyfarfod Pwyllgor Archwilio i drafod un risg yn fanylach. Roedd yr awgrwm hwn wedi deillio o adolygiad effeithiolrwydd y Pwyllgor.</p> <p>Cynhaliwyd archwiliad partneriaethau a chydweithredu hefyd, a chafwyd dyfarniad o sicrwydd rhesymol. Byddai'r cyflwyniad a roddwyd gan PVC Partnerships yn y Diwrnod Strategaeth yn cael ei rannu gydag aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo polisi caffael diwygiedig a chyfarfod gyda'r Cynghorydd Caffael, a oedd wedi bod yn ddefnyddiol.</p> <p>Penderfynwyd NODI bod y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y Pwyllgor.</p> <p>CYMERADWYO'R Polisi Gwaredu Asedau Sefydlog.</p>	<p>VB</p>
<p>18.20.02 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid</p>		
	<p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018 (ii) Adroddiad ar y tendr ar gyfer gwasanaethau bancio newydd. (iii) Polisi Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddi Moesegol. <p>Adroddwyd:</p> <p>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y ffaith bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo polisi rheolaeth trysorlys a buddsoddi moesegol diwygiedig, a ddarparwyd i'r aelodau gyfeirio ato.</p> <p>Yn ychwanegol roedd y Pwyllgor wedi adolygu effaith caffael Pentref Myfyrwyr Wrecsam ar y gyllideb a'r rhagfynegiadau a nodwyd ei fod yn gadarnhaol, er wedi ei wanhau ar gyfer 2018/19 oherwydd lefelau meddiant is na'r disgwyl. Y rheswm am y meddiant is yn y llety myfyrwyr oedd oherwydd caffael yr adeilad yn hwyrach na'r disgwyl, ac felly'r diffyg amser i farchnata'r llety i fyfyrwyr newydd. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa.</p> <p>Aeth y Cyfarwyddwr Cyllid ymlaen i gyflwyno'r adroddiad ar y tendr ar gyfer darpariaeth gwasanaethau bancio, a gadarnhwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid. Tynnwyd sylw nad oedd y Brifysgol wedi tendro ar gyfer ei wasanaethau bancio am oddeutu 20 mlynedd ac roedd y gwasanaeth diweddar gan fancwyr cyfredol y Brifysgol wedi bod yn wael. Amlinellwyd y broses a ddefnyddiwyd, ynghyd â'r costau a'r gwasanaethau gwerth ychwanegol yn cael eu cynnig gan y banc llwyddiannus o'i gymharu gyda'r hyn a gynigiwyd gan y banciau eraill a gyflwynodd dendrau.</p> <p>Roedd y trefniant cyfalaf gweithiol ar wahân gyda Sancus Finance yn gweithio'n dda a byddai'n cael ei adolygu ar ddiwedd y tair blynedd i benderfynu p'un ai i barhau gyda'r gwasanaeth neu geisio trefniadau tebyg gyda'r banc newydd.</p> <p>Penderfynwyd NODI bod y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p>	

	<p>NODI adroddiad y cyfarfod.</p> <p>CYMERADWYO Banc Barclays fel darparrydd gwasanaethau bancio'r Brifysgol o fis Rhagfyr 2018 am bum mlynedd; a CHYTUNO bod y Cadeirydd yn llofnodi unrhyw gytundebau neu fandadau bancio i weithredu'r trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd, os oes angen.</p>	
	<p>18.20.03 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau</p>	
	<p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018.</p> <p>(ii) Memorandwm Cytundeb rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Tynnodd y Cadeirydd sylw at y newid bach yn y Memorandwm Cytundeb i adlewyrchu cyfrifoldebau Undeb y Myfyrwyr dan y Ddeddf Drwyddedug yn dilyn eu penderfyniad i werthu alcohol yn Undeb y Myfyrwyr (trwy drydydd parti).</p> <p>Penderfynwyd</p> <p>NODI bod y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod.</p> <p>CYMERADWYO'R diwygiadau i'r Memorandwm Cytundeb rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.</p>	